# Canllawiau Ofcom ar Ddarparu Gwasanaethau Mynediad ar gyfer Teledu ac Ar-alw

# Cynnwys

## Adran

1. Cyflwyniad ........ 3

2. Canllawiau Cyffredinol ........ 4

Isdeitlo a nodweddion hygyrchedd cysylltiedig ........ 13

3. Disgrifiadau sain a nodweddion hygyrchedd cysylltiedig ........ 17

4. Iaith arwyddion ........ 21

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Ofcom yn credu y dylai rhaglenni teledu ac ar-alw ddarparu profiad sy'n rhoi'r un boddhad i bob cynulleidfa, beth bynnag fo'u hanabledd. I'r perwyl hwn, mae'r canllawiau hyn yn nodi argymhellion i ddarlledwyr a darparwyr fideo ar-alw ('darparwyr' gyda'i gilydd) ynghylch sicrhau ansawdd eu gwasanaethau mynediad (gan gynnwys isdeitlau, disgrifiadau sain ac iaith arwyddion[1]). Yn gyffredinol, mae'r canllawiau hyn yn canolbwyntio ar y canlyniadau pwysig i gynulleidfaoedd, yn hytrach na'r union ddull o'u cyflawni, ac felly maent yn caniatáu ar gyfer defnyddio amrywiaeth o dechnolegau gwahanol (cyfredol a'r dyfodol). Rydyn ni'n annog pob darlledwr a darparwr gwasanaethau fideo ar-alw ('darparwyr fideo ar-alw')[2] sy'n cael eu rheoleiddio gan Ofcom i ystyried y canllawiau hyn.

1.2 Mae angen i ddarlledwyr sicrhau bod ansawdd eu gwasanaethau mynediad yn ddigonol er mwyn cyrraedd y targedau statudol (ewch i 4.6-4.8 yn y Cod Gwasanaethau Mynediad ar gyfer Teledu i gael rhagor o fanylion).

1.3 Ni fwriedir i'r canllawiau hyn fod yn gynhwysfawr na chael eu defnyddio ar eu pen eu hunain. Gall dewisiadau cynulleidfaoedd amrywio yn ôl gwasanaeth ac maent yn debygol o barhau i esblygu, felly dylai darparwyr ymgynghori'n rheolaidd â'u cynulleidfaoedd a/neu grwpiau sy'n cynrychioli pobl anabl i lywio eu darpariaeth. Mae dolenni at ragor o adnoddau ar gael ar ein gwefan hefyd.

1.4 Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i ddarlledwyr a darparwyr fideo ar-alw oni nodir yn wahanol. Mae'r canllawiau sy'n berthnasol i wasanaethau fideo ar-alw neu ddarlledu wedi'u nodi mewn blychau.

---

[1] Ystyr 'arwyddo' yw pan fo rhaglenni'n cael eu trosi i iaith arwyddion neu'n cael eu cyflwyno mewn iaith arwyddion. BSL yw'r iaith arwyddion fwyaf poblogaidd yn y Deyrnas Unedig.

[2] Mae rhestr o wasanaethau rhaglenni fideo ar-alw ar gael gennym.

# 2. Canllawiau Cyffredinol

## Deall Cynulleidfaoedd

### Grwpiau Cynulleidfa

2.1 Mae mynediad at wasanaethau teledu a fideo ar-alw yn hanfodol er mwyn galluogi cyfranogiad llawn mewn bywyd cymdeithasol a diwylliannol, ac mae hefyd yn chwarae rhan wrth helpu i fynd i'r afael ag unigrwydd[3]. Mae pobl sy'n colli eu clyw a phobl f/Fyddar, a phobl sy'n colli eu golwg a phobl ddall, yn aml yn dibynnu ar isdeitlau, disgrifiadau sain a/neu iaith arwyddion er mwyn gallu mwynhau cynnwys teledu ac ar-alw. Gall pobl, gan gynnwys pobl sy'n ddall ac yn fyddar (sy'n colli eu golwg a'u clyw) elwa o fwy nag un gwasanaeth mynediad ar raglen. Mae nifer yr achosion o golli clyw a golwg yn cynyddu wrth i bobl fynd yn hŷn, ac felly mae'n bosib fod pobl hŷn yn fwy tebygol o ddibynnu ar wasanaethau mynediad[4].

2.2 Dylid canolbwyntio'n bennaf ar bobl sy'n colli eu clyw a phobl f/Fyddar, a phobl sy'n colli eu golwg a phobl ddall, wrth ddarparu gwasanaethau mynediad teledu i fodloni'r cwotâu statudol[5]. Fodd bynnag, rydyn ni hefyd yn annog darlledwyr a darparwyr fideo ar-alw i wneud eu rhaglenni'n fwy hygyrch i bobl ag anableddau eraill[6]. Er enghraifft, gall pobl sydd â chyflyrau gwybyddol a/neu niwroddatblygiadol neu anableddau cymhleth[7] elwa o ddarparu gwasanaethau mynediad hefyd[8].

2.3 Mae'n bosib y bydd darparwyr hefyd am ystyried y manteision ehangach i bob gwyliwr. Er enghraifft, gellir defnyddio isdeitlau i helpu pobl i ddeall deialog wrth wylio mewn amgylcheddau swnllyd neu gyhoeddus. Mae cyfran sylweddol o bobl nad ydynt yn colli eu clyw yn defnyddio isdeitlau, yn enwedig gwylwyr ifanc[9]. .. Mae rhywfaint o waith ymchwil hefyd yn awgrymu y gallai isdeitlau helpu i wella llythrennedd plant a'r rheini sy'n dysgu iaith newydd[10]..

### Dewis a phersonoli

2.4 Mae anghenion a dewisiadau unigolion anabl yn debygol o amrywio, yn dibynnu'n rhannol ar raddfa a natur eu hanabledd. Felly, lle bo'n ymarferol, rydyn ni'n annog darparwyr i gynnig opsiynau personoli (er enghraifft mewn perthynas â maint a chyflwyniad isdeitlau[11]

---

[3] I gael rhagor o wybodaeth, gweler ymgyrch wybodaeth unigrwydd gan WaveLength.
[4] I gael rhagor o wybodaeth am golli golwg a chlyw, gweler Ffeithiau a ffigurau ar golli clyw a thinitws gan RNID, Ystadegau allweddol am golli golwg gan RNIB ac Ystadegau ar ddallineb a byddardod yn y DU gan Sense. I gael rhagor o wybodaeth am y defnydd o Iaith Arwyddion Prydain (BSL) gan bobl Fyddar, gweler Cymorth ac Adnoddau gan y BDA ar iaith arwyddion.
[5] Gweler ein Cod Gwasanaethau Mynediad ar gyfer Teledu.
[6] Gweler yr adran Cynlluniau Gweithredu Hygyrchedd yn y Canllawiau hyn.
[7] I gael rhagor o wybodaeth am anableddau cymhleth, gweler ystadegau ar anableddau cymhleth yn y DU gan Sense.
[8] I gael rhagor o wybodaeth am sut mae gwasanaethau mynediad o fudd i'r rheini sydd â chyflyrau gwybyddol, gweler adroddiad ymchwil RIDC ar ddisgwyliadau cynulleidfaoedd ynghylch gwasanaethau mynediad ar draws gwasanaethau teledu a fideo-ar-alw.
[9] Er enghraifft, mae'r arolwg YouGov hwn o 2023 yn dangos bod yn well gan 61% o bobl ifanc rhwng 18 a 24 oed gael yr isdeitlau ymlaen.
[10] Gweler y crynodeb hwn o waith ymchwil ar isdeitlau a llythrennedd gan Turn on the Subtitles a'r erthygl trafod ymchwil hon ar rôl isdeitlau wrth ddysgu ieithoedd tramor.
[11] Gweler yr adran Subtitling yn y Canllawiau hyn.

neu arwyddwyr[12]) a dewis i wylwyr (er enghraifft, drwy ddarparu cyflwyniadau dewisol i raglenni â disgrifiadau sain[13]). Yn gyffredinol, mae hefyd yn well cynnig gwasanaethau mynediad 'caeedig' y gall y gwyliwr eu rhoi ymlaen neu eu diffodd, yn dibynnu ar eu hanghenion.

2.5 Gall opsiynau personoli wneud y rhyngwyneb defnyddwyr yn fwy cymhleth, ac felly rydyn ni'n annog darparwyr i sicrhau bod gwasanaethau o'r fath yn hawdd i gynulleidfaoedd anabl eu defnyddio. Gall defnyddio gosodiadau diofyn neu awtomatig (lle mae gofynion hygyrchedd yn cael eu cofio) helpu gyda hyn. Pan fydd data'n cael ei gasglu mewn perthynas â gofynion hygyrchedd defnyddiwr, dylai darparwyr fod yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau o dan ddeddfwriaeth diogelu data[14]..

2.6 Dylai darparwyr geisio caniatáu i wylwyr ddefnyddio mwy nag un gwasanaeth mynediad ar yr un pryd ar raglen benodol.

# Datblygu Strategaethau

## Cynlluniau Gweithredu Hygyrchedd

2.7 Mae Ofcom yn annog darlledwyr a darparwyr fideo ar-alw i ddatblygu cynlluniau gweithredu hygyrchedd gyda'r bwriad o sicrhau bod eu gwasanaethau, yn raddol ac yn barhaus, yn dod yn fwy hygyrch i bobl anabl[15]. Rydyn ni'n atgoffa darparwyr ei bod yn ofynnol iddynt roi gwybod i Ofcom am unrhyw gynlluniau o'r fath[16].

2.8 Dylai'r cynlluniau gweithredu nodi sut mae darparwyr yn bwriadu gwneud cynnydd o ran argaeledd nodweddion hygyrchedd a'u hansawdd a'u defnyddioldeb ar gyfer pobl anabl. Dylai darparwyr ymgysylltu â chynulleidfaoedd perthnasol i nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella ac i ddatblygu eu cynlluniau.

2.9 Dylai'r cynlluniau gynnwys nodau mesuradwy sydd wedi'u diffinio'n glir er mwyn i ddarparwyr allu olrhain cynnydd yn rheolaidd. Rydyn ni'n argymell bod uwch reolwyr yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu cynlluniau gweithredu a chytuno arnynt, ac yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd (er enghraifft drwy bwyllgorau neu grwpiau llywio, os oes gan ddarparwyr y rhain). Dylai uwch reolwyr sicrhau bod y cynlluniau'n cael eu hintegreiddio â strategaethau datblygu cynnyrch ehangach fel bod modd gwreiddio ystyriaethau hygyrchedd o'r dechrau.

## Y nifer a'r mathau o wasanaethau mynediad

2.10 Dylid ystyried y targedau statudol ar gyfer y lefelau gofynnol o ran isdeitlau, disgrifiadau sain ac iaith arwyddion (a nodir yn y Cod Gwasanaethau Mynediad ar gyfer Teledu) fel safonau sylfaenol yn unig. Mae Ofcom yn annog pob darlledwr a darparwr fideo ar-alw i gynyddu ei ddarpariaeth cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol. Fodd bynnag, gall gwasanaethau

---

[12] Gweler yr adran Signing yn y Canllawiau hyn.
[13] Gweler yr adran Cyflwyniadau Sain yn y Canllawiau hyn.
[14] Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth sy'n gyfrifol am orfodi deddfwriaeth diogelu data a dylai darparwyr ystyried ei chanllawiau yn y maes hwn. Mae rhagor o wybodaeth am ofynion deddfwriaeth diogelu data ar gael ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.
[15] Mae hyn yn cyd-fynd â'n dyletswyddau statudol: gweler ein Cod Gwasanaethau Mynediad ar gyfer Teledu (2.3) ac adran 368C(2) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.
[16] Gweler ein Cod Gwasanaethau Mynediad ar gyfer Teledu (7.2) ac adran 368D(3)(zza) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

mynediad o ansawdd isel achosi rhwystredigaeth sylweddol i gynulleidfaoedd, felly dylai darparwyr ystyried y ffordd orau o gydbwyso eu buddsoddiad rhwng ansawdd y rhaglenni hygyrch a nifer y rhaglenni hygyrch.

2.11 Wrth gaffael neu werthu cynnwys, rydyn ni'n annog darparwyr a chyflenwyr cynnwys i gynnwys ffeiliau gwasanaeth mynediad lle gallai helpu i leihau dyblygu gwaith ar draws y diwydiant a chynyddu argaeledd cynnwys hygyrch i wylwyr. Efallai y bydd angen i ddarparwyr olygu rhai o'r ffeiliau sy'n cael eu caffael er mwyn sicrhau eu bod yn gydnaws â'u gwasanaeth a bod safonau ansawdd yn cael eu bodloni. Gall cynnwys sgriptiau ac amseroedd fel rhan o ffeiliau gwasanaeth mynediad helpu i leihau swm y gwaith sy'n cael ei ddyblygu.

2.12 Pan nad oes ffeiliau gwasanaethau mynediad ar gael gyda chynnwys, rydyn ni'n dal i annog darparwyr i ystyried anghenion hygyrchedd wrth negodi cytundebau, er enghraifft drwy edrych a oes modd creu fersiynau ychwanegol ag iaith arwyddion o raglenni ar gyfer llwyfannau fideo ar-alw neu ddarlledu.

2.13 Y tu hwnt i ddarparu'r gwasanaethau mynediad gofynnol, rydyn ni'n annog darparwyr i ystyried yn fwy eang sut gallant wella hygyrchedd eu rhaglenni i bobl anabl. Gall hyn gynnwys ymyriadau ar bob cam o'r broses o wneud rhaglenni; fel gwneud newidiadau yn ystod y cam cynhyrchu a darparu nodweddion hygyrchedd ychwanegol ar ôl cynhyrchu. Er enghraifft, rydyn ni'n annog darparwyr i ystyried y canlynol:

- Creu rhaglenni yn Makaton (rhaglen gyfathrebu sy'n defnyddio symbolau, arwyddion a lleferydd) ar gyfer pobl o bob oed sydd ag anawsterau dysgu neu gyfathrebu[17].
- Gwneud rhaglenni gan ddefnyddio Saesneg â chymorth arwyddion, er enghraifft ar gyfer pobl sydd wedi mynd yn fyddar yn ddiweddarach mewn bywyd.
- Darparu amrywiaeth o opsiynau i gael gafael ar raglenni iaith dramor, gan gynnwys isdeitlau a throsleisio.
- Ei gwneud hi'n haws clywed deialog mewn rhaglenni ar gyfer pobl sy'n colli eu clyw, a/neu ddarparu opsiynau i addasu lefelau sain (ewch i'r adran Isdeitlo a nodweddion hygyrchedd cysylltiedig i gael rhagor o wybodaeth).
- Mabwysiadu dulliau ychwanegol o wneud rhaglenni'n fwy hygyrch i bobl sy'n colli eu golwg a phobl ddall, fel defnyddio disgrifiadau integredig, cyflwyniadau sain ac isdeitlau llafar/sain (ewch i'r adran Disgrifiadau Sain i gael rhagor o wybodaeth).
- Cefnogi hysbysebwyr i ddarparu gwasanaethau mynediad ar hysbysebion[18].

## Technolegau Newydd

2.14 Er bod Ofcom yn agored i ddefnyddio gwahanol dechnolegau i gynhyrchu gwasanaethau mynediad, dylai darparwyr sicrhau nad yw mabwysiadu technolegau newydd yn arwain at wasanaethau mynediad o ansawdd is. Dylai darparwyr ddefnyddio'r egwyddorion yn y canllawiau hyn i asesu technolegau newydd, a gofyn am adborth gan gynulleidfaoedd i helpu i benderfynu ar eu heffaith debygol ar ansawdd.

[17] I gael rhagor o wybodaeth, gweler What is Makaton ar wefan yr Elusen Makaton. Ni ddylid drysu rhwng Makaton ac Iaith Arwyddion Prydain (BSL), sy'n iaith gydnabyddedig. Gweler yr adran Iaith Arwyddion yn y Canllawiau hyn.

[18] I gael rhagor o wybodaeth am hysbysebion hygyrch, gweler Canllaw Hysbysebu Hygyrch ISBA.

2.15 Ni waeth pa dechnolegau sy'n cael eu defnyddio, rydyn ni'n atgoffa darlledwyr ein bod yn disgwyl i wasanaethau mynediad fod o ansawdd uchel er mwyn cyfrannu at y cwotâu statudol. Mae ein Cod Gwasanaethau Mynediad ar gyfer Teledu (4.6-4.8) yn nodi'r ffactorau y byddwn yn eu hystyried wrth asesu a yw gwasanaethau mynediad o ansawdd digonol i gyrraedd y targedau statudol.

# Blaenoriaethu Rhaglenni a Chodi Ymwybyddiaeth

## Dewis ac amserlennu rhaglenni

2.16 Ni ddylai darlledwyr gyflawni'r targedau statudol drwy amserlennu nifer o ailddarllediadau o raglenni hygyrch, gan y bydd hyn yn tynnu oddi ar fanteision cyrraedd y targedau. Yn yr un modd, rydyn ni'n annog darparwyr fideo ar-alw i adnewyddu eu gwasanaethau mynediad o leiaf ar yr un gyfradd ag y maent yn adnewyddu cynnwys ar eu gwasanaeth yn fwy cyffredinol.

2.17 Dylai darparwyr ofyn am gyngor gan grwpiau/arbenigwyr anabledd ac ystyried dewisiadau cynulleidfaoedd ynghylch y ffordd orau o sicrhau'r manteision gorau posibl i bobl anabl wrth ddewis a threfnu rhaglenni hygyrch. Yn ogystal, dylai darparwyr ystyried yr argymhellion canlynol:

- Dylech flaenoriaethu gwneud achlysuron o bwysigrwydd cenedlaethol yn hygyrch drwy ddarparu isdeitlau, iaith arwyddion a disgrifiadau llafar. Bydd hyn yn galluogi cyfranogiad llawn mewn bywyd cymdeithasol a diwylliannol.
- Pan fydd gan raglenni sy'n rhan o gyfres wasanaethau mynediad, gwnewch bob ymdrech i sicrhau bod yr holl raglenni yn y gyfres dan sylw yn hygyrch, ni waeth a ydynt yn ymddangos ar wasanaethau fideo ar-alw a/neu ddarlledu.
- Gwnewch bob ymdrech i ddarparu gwasanaethau mynediad ar gyfer rhaglenni sy'n cynnwys actorion/cyfranogwyr sydd â gofynion hygyrchedd.

### Canllawiau i ddarparwyr fideo ar-alw yn unig:

Dylai darparwyr wneud pob ymdrech i sicrhau bod gwasanaethau mynediad wedi'u cynllunio yn cael eu hychwanegu at raglenni ar-alw cyn gynted ag y byddant ar gael, yn enwedig ar gyfer rhaglenni poblogaidd gan gynnwys cyfresi cyfan. Ar gyfer rhaglenni ag iaith arwyddion, mae hyn yn golygu gwneud fersiwn ag iaith arwyddion o raglen ar-alw ar gael ar yr un pryd â'r rhaglen heb iaith arwyddion. Er mwyn helpu i gyflawni hyn, dylai darparwyr fideo ar-alw drefnu amser ar gyfer creu gwasanaethau mynediad fel rhan annatod o negodi ffenestri hawliau cynnwys a dyddiadau rhyddhau ar gyfer amserlennu. Os nad yw hyn yn bosib er gwaethaf yr ymdrechion gorau, dylai darparwyr roi gwybod i wylwyr a fydd gwasanaethau mynediad yn cael eu hychwanegu at y rhaglen, a phryd.

Dylai darparwyr fideo ar-alw adeiladu darpariaeth gwasanaeth mynediad ar draws eu holl lwyfannau[19] cyn belled ag y bo modd. Fodd bynnag, wrth ddewis pa lwyfannau i'w blaenoriaethu, rydyn ni'n argymell bod darparwyr yn ystyried poblogrwydd a defnyddioldeb llwyfannau penodol ac yn ymgynghori â chynulleidfaoedd a/neu grwpiau anabledd.

[19] Mae llwyfan yn golygu'r rhyngwyneb y mae'n rhaid i'r darparwr ar-alw ei ddefnyddio i wneud gwaith datblygu sylweddol i sefydlu gallu'r gwasanaeth mynediad. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys gwahanol systemau gweithredu symudol (ee iOS/ Android) a gwahanol lwyfannau teledu cysylltiedig (ee Samsung/ Apple).

## Gwybodaeth hygyrch gan gynnwys argyfyngau cenedlaethol

2.18 Pan fydd rhaglen yn hygyrch i bobl anabl, dylai darparwyr wneud pob ymdrech i sicrhau bod gwybodaeth bwysig am raglenni ar y sgrin hefyd yn hygyrch. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, rhybuddion llafar am ddelweddau sy'n fflachio a allai fod yn niweidiol, neu signalau clywadwy ynghylch gosod cynnyrch a nawdd.

## Canllawiau i ddarlledwyr yn unig

Er mwyn sicrhau bod cynulleidfaoedd anabl yn cael gwybod am argyfyngau cenedlaethol a lleol, mae'n bwysig bod gwybodaeth sy'n cael ei darlledu, gan gynnwys rhifau ffôn perthnasol a dolenni at ragor o wybodaeth, yn cael ei hisdeitlo, ei harwyddo a'i dweud yn llawn. Yn ddelfrydol, dylai'r wybodaeth mewn isdeitlau fod mewn fformat agored[20] a chaniatáu digon o amser i bobl wneud nodyn o'r manylion.

Rydyn ni hefyd yn atgoffa darlledwyr y gall y Llywodraeth fynnu bod Ofcom yn rhoi cyfarwyddyd i ddarlledwyr trwyddedig penodol i gynnwys cyhoeddiad brys penodol yn eu gwasanaethau, gan gynnwys mewn perthynas â thrychineb naturiol. Rhaid i'r cyfarwyddyd ei gwneud yn ofynnol i'r wybodaeth a roddir yn y cyhoeddiad gael ei darparu mewn ffordd sy'n hygyrch i bobl anabl[21].

# Codi Ymwybyddiaeth

2.19 Dylai darparwyr sicrhau bod eu cynulleidfaoedd yn ymwybodol o wasanaethau mynediad fel nodwedd gyffredinol ac mewn perthynas â'r argaeledd ar wasanaethau, llwyfannau a rhaglenni penodol. Dylai darparwyr hefyd helpu pobl i ddeall sut mae dod o hyd i raglenni sydd â gwasanaethau mynediad (er enghraifft, drwy offer llywio a symbolau adnabod), yn ogystal â rhoi gwybodaeth am sut mae defnyddio nodweddion personoli sydd ar gael. Dylai fod yn hawdd i gynulleidfaoedd perthnasol ddod o hyd i wybodaeth.

2.20 Dylai darparwyr geisio codi ymwybyddiaeth o unrhyw fersiynau hygyrch sydd ar gael o raglenni. Er enghraifft, pa bryd fydd fersiwn hygyrch o raglen benodol yn cael ei darlledu rywbryd eto neu'n cael ei llwytho i fyny i wasanaeth fideo ar-alw.

2.21 Dylid codi ymwybyddiaeth drwy amrywiaeth o ddulliau effeithiol, gan ystyried yr ystod lawn o gynulleidfaoedd anabl (er enghraifft, drwy gynnwys cyfathrebiadau mewn iaith arwyddion neu Gymraeg/Saesneg clir).

2.22 Gallai dulliau cyfathrebu gynnwys:

- Cyhoeddiadau ar yr awyr a thestun ar y sgrin (yn achos sianeli darlledu)
- fideos hyrwyddo
- gwybodaeth ar-lein ac ar gyfryngau cymdeithasol (fel tiwtorialau fideo)
- gwybodaeth mewn negeseuon e-bost i danysgrifwyr/defnyddwyr neu mewn cyhoeddiadau sydd wedi'u hanelu at bobl sy'n debygol o elwa o wasanaethau mynediad.

[20] Mae capsiynau agored i'w gweld yn barhaol ar y sgrin a does dim modd i'r defnyddiwr eu rhoi ymlaen neu eu diffodd.
[21] Gweler Adran 336 (1-3) o'r Ddeddf a 7.2 o'r Cod Gwasanaethau Mynediad ar gyfer Teledu.

2.23 Mae cyfathrebu â gwylwyr ynghylch argaeledd yn arbennig o bwysig pan fydd newidiadau i amserlenni arferol, os bydd tarfu ar wasanaethau mynediad (er enghraifft yn ystod adegau o bwysigrwydd cenedlaethol), neu gyfnodau segur yn y gwasanaeth. Felly, dylai darparwyr sicrhau eu bod wedi paratoi cynlluniau cyfathrebu clir sy'n barod i'w rhoi ar waith os bydd unrhyw darfu ar y gwasanaeth, a bod y rhain yn ystyried y cynulleidfaoedd yr effeithir arnynt a'u hanghenion.

2.24 Lle disgwylir y bydd cyfnod segur hir, dylai gwylwyr gael gwybod yn gyflym beth yw'r rheswm am y cyfnod segur, y camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael ag ef, ac amcangyfrif o'r amser ar gyfer adfer y gwasanaeth yn llawn. Hefyd, dylid rhoi gwybod yn brydlon i wylwyr pan fydd gwasanaethau wedi cael eu hadfer. Dylai'r cyfathrebu ystyried y cynulleidfaoedd sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio, er enghraifft, pan na fydd gwasanaeth iaith arwyddion ar gael, dylid sicrhau bod yr holl gyfathrebu ar gael mewn iaith arwyddion.

2.25 Pan fydd gwasanaethau darlledu neu fideo ar-alw ar gael ar draws nifer o lwyfannau, dylai darparwyr gynnig gwybodaeth ynghylch i ba raddau mae eu rhaglenni ar gael ar bob llwyfan. Ar gyfer gwasanaethau am dâl (er enghraifft, gwasanaethau tanysgrifio), dylai'r wybodaeth hon fod ar gael cyn prynu.

## Canllawiau i ddarlledwyr yn unig

Mae gan ddarlledwyr ddyletswydd statudol i godi ymwybyddiaeth ynghylch a yw eu gwasanaethau mynediad ar gael i ddarpar ddefnyddwyr, fel sy'n cael ei amlinellu yn y Cod Gwasanaethau Mynediad ar gyfer Teledu [6.1-6.3 yn y cod]. Mae hyn yn cynnwys ymwybyddiaeth gyffredinol a gofynion penodol i sicrhau bod rhaglenni sy'n darparu gwasanaethau mynediad yn cael eu nodi'n glir, yn eu rhestrau rhaglenni eu hunain, a thrwy ddarparu gwybodaeth i weithredwyr amserlen rhaglenni electronig (EPG) sy'n rhestru eu gwasanaethau.

Dylen nhw ddefnyddio'r acronymau safonol mewn priflythrennau ar gyfer isdeitlau (S), disgrifiadau sain (AD) ac iaith arwyddion (SL). Mae Ofcom wedi gosod rhwymedigaethau cyfatebol ar weithredwyr amserlen rhaglenni electronig, ynghyd â gofynion eraill o ran defnyddioldeb, yng Nghod EPG.

Lle bo'n ymarferol, dylai darlledwyr ddefnyddio eu sianeli teledu eu hunain (ac nid dim ond cyfryngau cymdeithasol) i gyfathrebu â gwylwyr os bydd unrhyw darfu ar wasanaethau. Dylai'r wybodaeth a roddir fod yn gywir. Er enghraifft, dylid sicrhau bod data Amserlen Rhaglenni Electronig ynghylch a yw gwasanaethau mynediad ar gael, yn cael ei ddiweddaru os oes unrhyw wasanaethau wedi cael eu colli.

## Canllawiau i'r darparwyr fideo ar-alw yn unig

Dylai darparwyr fideo ar-alw nodi pa raglenni sydd ar gael ar eu gwefannau a'u hapiau, a darparu metaddata priodol i lwyfannau trydydd parti. Dylen nhw hefyd sicrhau ei bod yn hawdd dod o hyd i gynnwys hygyrch, er enghraifft drwy gynnig opsiynau hidlo ar gyfer cynnwys â gwasanaethau mynediad neu gategoreiddio rhaglenni hygyrch yn glir. Dylai categorïau neu opsiynau hidlo o'r fath fod yn amlwg ar y gwasanaeth ac yn hawdd eu defnyddio. Dylai darparwyr hefyd sicrhau bod gwasanaethau mynediad yn hawdd eu troi ymlaen/diffodd, er enghraifft drwy ddefnyddio symbolau adnabyddus, amlwg neu, lle bo'n briodol, signalau clywadwy.

# Hygyrchedd wrth gynhyrchu

## Hygyrchedd

2.26 Rydyn ni'n annog darparwyr a gwneuthurwyr cynnwys i ystyried anghenion hygyrchedd yn gynnar yn y broses gynhyrchu, gan gynnwys yn y cam comisiynu. Mae newidiadau bach yn gallu gwneud gwahaniaeth sylweddol o ran pa mor hygyrch yw cynnwys. Er enghraifft, mae cyfeirio'n glywadwy at wybodaeth bwysig fel sgoriau mewn rhaglenni chwaraeon, neu sicrhau bod testun pwysig ar y sgrin mewn rhaglenni yn gwbl amlwg, yn gallu gwneud gwahaniaeth sylweddol i bobl sy'n colli eu golwg a phobl ddall[22].

2.27 Gall cydweithio rhwng arbenigwyr hygyrchedd a thimau cynhyrchu cynnwys helpu i sicrhau'r manteision gorau posibl i gynulleidfaoedd perthnasol. Mae cael arbenigwyr hygyrchedd cynnwys mewn timau cynhyrchu yn gallu bod o fudd i ystyried materion perthnasol yn gynnar, ac efallai y bydd darparwyr gwasanaethau mynediad yn awyddus i ymgysylltu â thimau cynhyrchu i'w helpu i adlewyrchu bwriad creadigol y cynnwys.

## Amrywiaeth

2.28 Nid yw pobl yn cael eu diffinio gan un nodwedd ac mae cynulleidfaoedd anabl yn adlewyrchu amrywiaeth lawn cymdeithas yn y Deyrnas Unedig. Dylai cynulleidfaoedd allu gweld/clywed eu hunain yn cael eu cynrychioli mewn modd dilys ar y sgrin, yn cynnwys gan ddisgrifwyr sain ac arwyddwyr. Dylai'r timau sy'n rhan o'r gwaith o wneud a dosbarthu rhaglenni adlewyrchu amrywiaeth eu cynulleidfaoedd hefyd er mwyn deall a bodloni eu hanghenion a'u dewisiadau'n llawn ac yn effeithiol. Gallwch ddarllen mwy am rôl Ofcom yn hyrwyddo amrywiaeth ym maes darlledu, gan gynnwys ein canllawiau i ddarlledwyr ar hyrwyddo cyfle cyfartal yn ein Hyb Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiad.

## Hyfforddiant

2.29 Er bod y canllawiau hyn yn cyflwyno'r egwyddorion cyffredinol ar gyfer arfer gorau, mae cynhyrchu gwasanaethau mynediad o ansawdd uchel yn gofyn am gryn arbenigedd a phenderfyniadau gwybodus fesul achos. Felly, dylai pobl sy'n gwneud gwasanaethau mynediad (gan gynnwys is-deitlau, disgrifiadau sain ac iaith arwyddion) gael hyfforddiant priodol.

# Asesu ansawdd

## Monitro

2.30 Dylai darparwyr fonitro ansawdd eu gwasanaethau mynediad yn rheolaidd, gan gynnwys yn erbyn y nodau penodol sydd yn eu cynlluniau gweithredu ar gyfer hygyrchedd. Dylai hyn olygu bod darparwyr yn sicrhau bod prosesau ar waith i adolygu ansawdd gwasanaethau mynediad ar gyfer cynnwys sydd wedi'i recordio ymlaen llaw cyn darlledu, ynghyd ag adolygiadau rheolaidd ar ôl darlledu. Dylai darparwyr ystyried defnyddio modelau meintiol i helpu i asesu ansawdd eu gwasanaethau mynediad, er enghraifft mewn perthynas ag

[22] Gweler yr adran Audio description yn y Canllawiau hyn.

agweddau penodol ar ansawdd isdeitlo fel cywirdeb ac oedi. Dylai adborth gan wylwyr hefyd fod yn rhan annatod o fonitro ansawdd fel y trafodir isod.

2.31 Dylai darparwyr fonitro eu hallbwn i sicrhau bod gwasanaethau mynediad sydd wedi'u hamserlennu yn cael eu darparu'n gywir. Mae diffyg yn y gwasanaethau mynediad yn tarfu ar y rheini sy'n dibynnu arnynt yn yr un modd ag y byddai toriad mewn darlledu i eraill. I gael rhagor o arweiniad ar gyfathrebu â chynulleidfaoedd os bydd problem, gweler yr adran Codi Ymwybyddiaeth.

2.32 Rydyn ni'n atgoffa Channel 3, Channel 4 a Channel 5 fod angen iddyn nhw, yn ôl Cod Perfformiad Technegol Teledu Ofcom, sicrhau, pan fo rhaglenni wedi'u hamserlennu i gynnig gwasanaethau mynediad, fod presenoldeb a dibynadwyedd y gwasanaethau mynediad hynny yn cael yr un flaenoriaeth â sicrhau presenoldeb a dibynadwyedd cydrannau llun a sain y rhaglenni hynny.

## Ceisio adborth

2.33 Mae deall anghenion a dewisiadau cynulleidfaoedd yn bwysig er mwyn cynnig nodweddion hygyrchedd o ansawdd uchel. Fodd bynnag, gall pobl anabl wynebu rhwystrau ychwanegol rhag rhoi adborth, ac nid yw pob un yn gallu cael mynediad yn rhwydd at ffyrdd o gwyno ar-lein. Dylai darparwyr sicrhau bod modd i bawb weld eu ffyrdd o gwyno a rhoi adborth ar bob cam o'r broses. Dylai hyn gynnwys:

- darparu amrywiaeth o ffyrdd o gwyno, gan gynnwys, lle bo hynny'n briodol, ffôn (gyda gwybodaeth am gael gafael ar y broses gwyno drwy wasanaeth cyfnewid testun), cyfeiriadau e-bost, ffurflenni ar-lein, post, a gwasanaeth cyfnewid fideo.
- sicrhau ei bod yn hawdd dod o hyd i ffyrdd o gwyno ar eu gwefannau a'u bod yn hygyrch i bobl anabl, er enghraifft drwy sicrhau bod modd eu darllen gyda meddalwedd darllenydd sgrin a'u bod yn cael eu cyfieithu i iaith arwyddion.
- ymateb i adborth a chwynion yn brydlon ac mewn iaith glir. Dylai darparwyr nodi manylion ar eu gwefannau ynghylch sut mae gofyn am ymatebion mewn fformatau eraill.

2.34 Dylai darparwyr hefyd fynd ati'n rhagweithiol i geisio barn cynulleidfaoedd, yn hytrach na dibynnu ar ffyrdd o gwyno/rhoi adborth yn unig. Dylai hyn gynnwys casglu adborth rheolaidd am ansawdd a defnyddioldeb gwasanaethau mynediad a dewis/amserlennu rhaglenni. Mae ffyrdd amrywiol o gyflawni hyn, gan gynnwys:

- ymgynghori ag elusennau anabledd;
- sefydlu paneli cynghori/sesiynau adborth i gynulleidfaoedd;
- cynnal ymchwil ymysg cynulleidfaoedd;
- mynd ati'n rhagweithiol i ofyn am adborth drwy gyfryngau cymdeithasol (er enghraifft, gydag arolwg barn);
- a defnyddwyr yn profi nodweddion (er enghraifft, mathau o ffontiau/ rhyngwynebau defnyddwyr).

2.35 Pa bynnag ddull a ddefnyddir, dylai darparwyr sicrhau bod eu dulliau cyfathrebu'n hygyrch er mwyn i'r holl gynulleidfaoedd perthnasol allu rhoi eu barn (er enghraifft, drwy ddefnyddio dehonglwyr iaith arwyddion neu fformatau eraill fel sy'n briodol).

# Ystyriaethau eraill

## Cydweddu â Thechnoleg Gynorthwyol

2.36 Dylai darparwyr fynd ati i wneud eu rhaglenni'n hygyrch i gynulleidfaoedd a allai fod yn defnyddio technolegau cynorthwyol fel darllenwyr sgrin a dangosyddion Braille. Dylai hyn gynnwys darparu isdeitlau fel ffeiliau testun wedi'u hamseru yn hytrach nag isdeitlau wedi'u llosgi ar ddelwedd fideo. Pan fydd testun ar y sgrin yn cael ei ddarllen yn uchel (gweler paragraff 4.5), rydyn ni'n annog darparwyr i'w isdeitlo fel bod modd cael gafael arno drwy ddefnyddio technolegau cynorthwyol. Lle bo'n bosibl, dylai darparwyr hefyd ystyried trefnu bod sgriptiau testun wedi'u hamseru o'r disgrifiadau sain ar gael i'r defnyddiwr fel ffordd arall o'i ddefnyddio.

2.37 Yn fwy cyffredinol, dylai darparwyr ystyried sut i wneud eu rhyngwynebau defnyddwyr (er enghraifft, gwefannau ac apiau) yn hygyrch i'r rheini sy'n defnyddio technolegau cynorthwyol.

## Rheolau golygyddol

2.38 Mae nodweddion hygyrchedd mewn rhaglenni yn rhan o'r cynnwys golygyddol ac felly dylen nhw gydymffurfio â rheolau cod darlledu a rheolau golygyddol fideo ar-alw Ofcom.

## Deddfwriaeth cyfle cyfartal

2.39 Bydd angen i ddarlledwyr roi sylw i'w rhwymedigaethau o dan ddeddfwriaeth cyfle cyfartal, a dylen nhw fynd ati eu hunain i geisio eu cyngor am hyn.

# Isdeitlo a nodweddion hygyrchedd cysylltiedig

## Beth yw isdeitlo?

2.40 Isdeitlo yw testun ar sgrin sy’n cynrychioli effeithiau sain a lleferydd, sy’n cyd-fynd â’r sain mor agos ag y bo modd.

## Cynulleidfaoedd:

2.41 Mae pobl sy’n colli eu clyw a phobl f/Fyddar yn amrywio o’r rheini sydd wedi colli eu clyw yn nes ymlaen yn eu bywydau i’r rheini sydd wedi bod yn hollol fyddar ers eu geni. I’r rheini sy’n colli eu clyw yn ddifrifol, mae’n debygol mai isdeitlau yw’r ffynhonnell wybodaeth bwysicaf. Mae gwylwyr sy’n colli eu clyw yn ysgafn neu’n gymedrol yn debygol o ddibynnu ar isdeitlau i’w helpu i glywed yn hytrach na bod yr isdeitlau’n rhywbeth sydd yn lle’r hyn a glywir. Mae’r rhan fwyaf yn debygol o ddarllen gwefusau i raddau. Mae gan ddefnyddwyr isdeitlau wahanol hyfedredd yn Saesneg; er enghraifft, gall pobl sydd â BSL yn iaith gyntaf iddynt fod yn llai rhugl yn Saesneg.

2.42 Mae anghenion amrywiol defnyddwyr isdeitlau yn ei gwneud yn anodd darparu isdeitlau sy’n addas i bawb. Nod y canllawiau isod yw adlewyrchu’r arferion gorau sy’n cael eu derbyn yn gyffredinol, ond dylai darlledwyr hefyd gofio am gynulleidfa darged rhaglenni penodol.

## Dewis ac amserlennu rhaglenni

2.43 Dylai darparwyr geisio isdeitlo amrywiaeth eang o raglenni i apelio at y gynulleidfa ehangaf bosibl, gan gynnwys rhaglenni poblogaidd a rhaglenni o ddiddordeb arbennig i’r gymuned Fyddar (er enghraifft, rhaglenni sy’n cynrychioli’r gymuned Fyddar ar y sgrin).

## Sicrhau ansawdd:

### Dylai isdeitlau fod mor gywir ag y bo modd

2.44 Mae’n bwysig bod is-deitlau mor gywir â phosib er mwyn sicrhau nad yw anghywirdeb yn effeithio ar ddealltwriaeth neu fwynhad gwylwyr o raglenni. Er bod angen i’r rhaglen gydymffurfio â rheolau golygyddol Ofcom[23], ni ddylai’r isdeitlau sensro’n ddiangen unrhyw iaith dramgwyddus sydd yn y ddeialog.

### Yn gyffredinol, dylai isdeitlau gael eu cysoni â’r sain, ac adlewyrchu’r hyn a ddywedir air am air, mor agos â phosibl

2.45 Gall hyn helpu cynulleidfaoedd sy’n defnyddio isdeitlau ar y cyd ag arwyddion gweledol a sain, gan gynnwys drwy ddarllen gwefusau. Ond, dylai isdeitlau fod yn ddarllenadwy hefyd

[23] Gweler Cod Darlledu Ofcom.

ac felly, gallai rhywfaint o aralleirio fod yn briodol mewn amgylchiadau cyfyngedig (er enghraifft, pan fydd y ddeialog yn gyflym iawn). Efallai y bydd hefyd yn briodol tynnu rhai geiriau llenwi (er enghraifft, yyym) lle nad oes ystyr iddyn nhw (er enghraifft, cyfleu petruster cymeriad). Ni ddylai isdeitlau ymddangos cyn i wybodaeth bwysig gael ei chyfleu; mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer cyflwyno llinellau clo, er enghraifft mewn rhaglenni comedi neu sioeau gemau/cwisiau. Dylai isdeitlau aros ar y sgrin yn ddigon hir i'w darllen, ond nid am gyhyd nes eu bod yn tynnu sylw neu'n cario drosodd pan fydd llun yn newid, lle bo modd[24].

2.46 Dylai darparwyr hefyd gadw mewn cof pwy yw'r gynulleidfa arfaethedig a/neu debygol ar gyfer eu rhaglenni; mae rhai pobl yn debygol o fod â chyfraddau darllen arafach a/neu anawsterau darllen, er enghraifft rhai pobl y mae BSL yn iaith gyntaf iddynt neu bobl sydd â chyflyrau gwybyddol.

2.47 Gall plant ifanc hefyd ddarllen yn arafach nag oedolion, er y gall yr angen i olygu ddibynnu ar gyflymder yr iaith lafar. Gall isdeitlau sy'n adlewyrchu'r lleferydd yn gywir hefyd helpu plant i ddatblygu sgiliau llythrennedd.

## Dylai isdeitlau byw fod ag oedi o ddim mwy na 4.5 eiliad ar gyfartaledd

2.48 Rydyn ni'n cydnabod y gallai hyn fod yn fwy heriol ar rai mathau o raglenni, fel rhaglenni sgwrsio cyflym neu raglenni chwaraeon. Fodd bynnag, dylai darparwyr anelu at oedi cymedrig[25] o ddim mwy na 4.5 eiliad yn eu rhaglenni byw yn eu cyfanrwydd.

2.49 Cyn belled ag y bo modd, dylai'r isdeitlau lifo'n rhwydd ar y sgrin. Mae Ofcom yn cydnabod bod angen cyfaddawdu weithiau rhwng blaenoriaethu cywirdeb neu flaenoriaethu chydamseredd mewn isdeitlau byw, lle mae rhywfaint o oedi'n anochel ac efallai y bydd angen golygu'n fwy ceidwadol. Ar gyfer rhai rhaglenni, lle mae gwybodaeth arbennig o bwysig yn cael ei throsglwyddo i gynulleidfaoedd (fel cyhoeddiadau brys neu newyddion), efallai y byddai'n briodol blaenoriaethu cywirdeb isdeitlau hyd yn oed os oes mwy o oedi. Fodd bynnag, yn gyffredinol, dylai darparwyr wneud pob ymdrech i leihau oedi ac anghywirdeb cyn belled ag y bo modd, drwy wneud y canlynol:

- cael deunydd wedi'i sgriptio a pharatoi geirfa arbennig ymlaen llaw
- gwneud y defnydd mwyaf posibl o isdeitlau bloc wedi'u paratoi ymlaen llaw mewn rhannau o raglenni byw (h.y. lle gellir paratoi isdeitlau ymlaen llaw ac yna eu 'bysellu' yn fyw) lle bo'n bosibl, a defnyddio 'oedi cyfnewidadwy' (h.y. caniatáu i isdeitlau osgoi'r oedi sy'n rhan annatod o sain a fideo yn ystod y gwaith codio, amlblecsu a chwarae).
- Adolygu, a phan fo angen, golygu isdeitlau ar gyfer rhaglenni sy'n cael eu hailddarlledu'n fyw am y tro cyntaf.
- Cydnabod y gallai gwahanol ddulliau isdeitlo (er enghraifft, ailsiarad, STTR[26] ac ati) fod yn fwy addas ar gyfer gwahanol fathau o raglenni, yn dibynnu ar gyflymder y ddeialog ac effaith y dull ar gywirdeb/oedi.

---

[24] Fodd bynnag, efallai y bydd angen cario isdeitlau drosodd pan fydd llun yn newid mewn rhai amgylchiadau, er enghraifft pan fydd y ddeialog yn cario drosodd pan fydd llun yn newid.

[25] Ystyr oedi yw'r amser rhwng y lleferydd a'r isdeitlau byw.

[26] Mae Adroddwyr Llais i Destun (STTRs) yn helpu pobl sy'n f/Fyddar i gael gafael ar wybodaeth sain drwy deipio'r hyn sy'n cael ei ddweud a bydd yr wybodaeth yn ymddangos ar y sgrin mewn amser real er mwyn i'r defnyddwyr ei darllen.

## Dylid disgrifio effeithiau sain a cherddoriaeth yn glir

2.50 Yn wahanol i isdeitlau cyfieithu, dylai isdeitlau ar gyfer pobl sy'n colli eu clyw a phobl f/Fyddar ddisgrifio'n glir yr wybodaeth berthnasol nad yw'n cael ei dweud, fel effeithiau sain, presenoldeb a naws y gerddoriaeth, a thôn y llais. Dylai geiriau caneuon gael isdeitlau hefyd lle bo'n bosibl, a byddai defnyddio teitl y gân ac enw'r artist fod yn ffordd o gyflwyno caneuon. Dylid nodi seibiau annisgwyl neu ddeialog na ellir ei chlywed. Mae atalnodi, llythrennau italig neu briflythrennau'n cael eu defnyddio'n aml i ddangos pwyslais neu emosiwn, a gall symbolau fel # neu nodyn cerddorol (♪) ddangos cerddoriaeth.

2.51 Dylai disgrifiadau cerddoriaeth a sain fod yn benodol yn hytrach na chyffredinol, er mwyn disgrifio'r seiniau mor glir â phosibl. Dylid annog isdeitlwyr i fod yn greadigol i gyfleu hanfod yr effeithiau sain.

2.52 Dylid dangos siaradwyr gwahanol yn glir. Gellir gwneud hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys defnyddio lliwiau, atalnodi, neu leoliad yr isdeitlau. Pan nad yw ffynhonnell y lleferydd yn amlwg ar unwaith, dylai'r isdeitl cyntaf gael capsiwn i labelu'r ffynhonnell, a dylid defnyddio isdeitlau hefyd i nodi ffynhonnell a chyfeiriad y lleferydd sydd oddi ar y sgrin/o olwg y camera lle dangosir hyn gan y sain ond nad yw'n amlwg o'r cyd-destun gweladwy.

## Dylai isdeitlau fod yn hawdd eu darllen, heb dynnu sylw oddi ar y prif lun

2.53 Dylai darparwyr ddefnyddio isdeitlau bloc wedi'u paratoi ymlaen llaw[27] i helpu darllenadwyedd lle bo hynny'n bosibl mewn rhaglenni byw a bob amser mewn rhaglenni wedi'u recordio ymlaen llaw.

2.54 Dylai ffontiau, lliwiau a meintiau'r isdeitlau fod yn hawdd eu darllen ac yn amlwg yn erbyn y cefndir[28]. Caiff darparwyr eu hannog i ddefnyddio technegau gwrth-arallenw i helpu i wneud i'r isdeitlau edrych yn fwy clir. Dylai darparwyr wneud yn siŵr eu bod yn defnyddio ffontiau hygyrch (fel Tiresias a Helvetica) sy'n defnyddio siapiau a nodau syml nad yw'n hawdd drysu rhyngddynt, gan gynnwys ar gyfer nodau tebyg (er enghraifft 'i' fawr ac 'l' fach), a llythrennau sy'n adlewyrchu ei gilydd (er enghraifft 'b' a 'd' fach). Gall ffontiau hygyrch fod yn arbennig o bwysig i rai cynulleidfaoedd anabl (er enghraifft, gwylwyr dall-fyddar neu ddyslecsig).

2.55 Fel arfer, mae isdeitlau'n cael eu gosod ar waelod y sgrin ond dylid eu symud pan fo angen er mwyn peidio â chuddio ceg y siaradwr neu wybodaeth neu weithgaredd hanfodol arall. Mae'n arbennig o bwysig peidio â chuddio wyneb y siaradwr, gan fod hyn yn cyfleu emosiynau a thôn y llais, yn ogystal â bod yn angenrheidiol ar gyfer darllen gwefusau. Dylai isdeitlau a llinellau isdeitlau gael eu rhannu'n doriadau ieithyddol rhesymegol[29].

2.56 Wrth bennu maint a safle'r isdeitlau, dylai darparwyr ystyried y gwahanol lwyfannau y bydd y cynnwys yn cael ei chwarae arnynt. Dylai darparwyr ystyried opsiynau personoli wrth

[27] Isdeitlau sy'n ymddangos fel un bloc o destun yn hytrach nag air am air.

[28] I gael rhagor o arweiniad ar sicrhau bod lliwiau isdeitlau yn gwrthgyferbynnu'n ddigonol â'r cefndir, edrychwch ar Ganllawiau Hygyrchedd Cynnwys y We, gan gynnwys eu gofynion cyferbyniad lliw.

[29] Gweler Adran 3 o ganllawiau isdeitlau y BBC, sy'n cynnwys cyngor manylach ar doriadau mewn isdeitlau.

gyflwyno isdeitlau, i helpu i fynd i'r afael â gwahanol anghenion a dewisiadau (er enghraifft, mae ffontiau mwy o faint yn arbennig o bwysig i bobl ddall-fyddar).

### Dylai isdeitlau fod yn yr iaith sy'n cael ei defnyddio a'i ffafrio gan gynulleidfa darged y rhaglen yn y DU

2.57 Mae hyn fel arfer yr un iaith â phrif iaith lafar y rhaglen, pan fydd yr iaith honno'n cael ei defnyddio gan y gynulleidfa darged, ond nid oes rhaid i hynny fod yn wir os yw ymgynghoriad â defnyddwyr anabl yn awgrymu y byddai'n well ganddynt iaith wahanol sy'n cael ei siarad gan y gynulleidfa yn y DU (er enghraifft efallai y byddai'n well ganddynt isdeitlau Saesneg ar rai rhaglenni Cymraeg).

2.58 Dylai rhaglenni mewn ieithoedd tramor a fyddai, beth bynnag, yn cael eu cyfieithu, gynnwys isdeitlau ar gyfer cynulleidfa anabl yn y DU (gan nodi bod isdeitlau ar gyfer pobl f/Fyddar neu bobl sy'n colli eu clyw yn cynnwys mwy o wybodaeth nag isdeitlau cyfieithu).

2.59 Dylai'r isdeitlau anelu at ddarparu profiad cyfatebol drwy ei gwneud hi'n glir pryd fydd cymeriadau'n newid rhwng ieithoedd mewn rhaglenni ac yn siarad mewn iaith dramor na fyddai'n cael ei chyfieithu fel arall.

## Nodweddion eraill

2.60 Efallai fod gan gynulleidfaoedd lefelau gwahanol o golli clyw a gellir eu cynorthwyo â nodweddion heblaw isdeitlau. Er enghraifft, ei gwneud yn haws clywed deialog a/neu ddarparu opsiynau i bersonoli lefelau sain mewn rhaglenni (er enghraifft, lefel sain sŵn yn y cefndir) lle bo hynny'n bosib[30]. Rydyn ni'n annog darparwyr i ystyried y nodweddion hyn wrth iddynt ddod yn ymarferol.

2.61 Fel yr amlinellwyd uchod, efallai y byddai'n well gan rai grwpiau cynulleidfa ddefnyddio isdeitlau arafach i'w helpu i ddarllen a deall. Dylai darparwyr fideo ar-alw ystyried addasu cyflymder y chwarae i alluogi'r cynulleidfaoedd hyn i arafu'r rhaglen a'r isdeitlau.

[30] I gael rhagor o wybodaeth am ddatblygiadau mewn technoleg yn ymwneud â phersonoli, gweler adroddiad Macroblock Ltd a'r School of Digital Arts ar gyfer Ofcom ar ddarlledu yn seiliedig ar wrthrychau.

# 3. Disgrifiadau sain a nodweddion hygyrchedd cysylltiedig

## Beth yw disgrifiadau sain?

3.1 Disgrifiadau sain yw sylwebaeth sain ychwanegol a ddatblygwyd yn bennaf i alluogi pobl ddall neu bobl sy'n colli eu golwg i gael gafael ar gynnwys clyweledol. Yn gyffredinol, mae disgrifiadau sain yn digwydd yn yr amser presennol ac yn disgrifio'r hyn sy'n digwydd ar y pryd mewn amser real. Mae'n cynnwys disgrifiadau o elfennau gweledol perthnasol y cynnwys, fel iaith y corff, mynegiant yr wyneb a gosodiadau. Mae'r adran hon hefyd yn ymdrin â nodweddion hygyrchedd sain ychwanegol fel disgrifiadau integredig[31] a chyflwyniadau sain. Er nad yw'r rhain yn cyfrannu at y cwotâu ar gyfer disgrifiadau sain yn y byd darlledu, rydyn ni'n annog darparwyr i ystyried y ffyrdd ychwanegol hyn o wneud cynnwys yn hygyrch.

## Cynulleidfaoedd

3.2 Er bod pobl sy'n colli eu golwg yn dod o bob ystod oedran, bydd y rhan fwyaf wedi colli rhywfaint neu'r cyfan o'u golwg yn ddiweddarach yn eu hoes, er enghraifft o ganlyniad i ddirywiad macwlaidd. Yn unol â hynny, dylai'r rhai sy'n disgrifio sain ystyried y ffaith y bydd gan y rhan fwyaf o bobl a allai fod yn defnyddio disgrifiadau sain rywfaint o olwg neu y byddant wedi cael golwg ar ryw adeg[32].

3.3 Gall disgrifiadau sain fod o fudd hefyd i bobl sydd â chyflyrau gwybyddol, er enghraifft, gall pobl ag awtistiaeth eu defnyddio i'w helpu i adnabod emosiynau neu gellir defnyddio disgrifiadau sain i helpu'r broses o gaffael iaith.

3.4 Mae'r dewisiadau ar gyfer disgrifiadau sain yn debygol o amrywio felly er bod y canllawiau isod yn ceisio adlewyrchu egwyddorion sy'n cael eu derbyn yn gyffredinol dylai darparwyr deilwra eu darpariaeth i anghenion a dewisiadau eu cynulleidfa benodol nhw.

## Dewis ac amserlennu rhaglenni

3.5 Mae pobl sy'n colli eu golwg a phobl ddall yn hoffi gwylio'r un mathau o raglenni â phawb arall, ond nid yw pob rhaglen mor addas ar gyfer disgrifiadau sain gymaint ag yw rhai eraill. Mae rhai rhaglenni'n symud yn rhy gyflym, yn cynnig fawr o gyfle i fewnosod disgrifiadau sain neu efallai na fyddant yn cael eu gwella'n sylweddol drwy ychwanegu disgrifiadau sain (er enghraifft, bwletinau newyddion sy'n llawn deialog).

[31] Pan fo mân newidiadau'n cael eu gwneud i'r trac sain gwreiddiol er mwyn ei wneud yn hygyrch i bobl sy'n colli eu golwg a phobl ddall (ee darllen testun sydd ar y sgrin yn uchel mewn rhaglenni cwis).
[32] Ystadegau allweddol am golli golwg, RNIB 2021.

3.6 Efallai y bydd rhai mathau o raglenni'n fwy addas ar gyfer disgrifiadau integredig, sef pan fydd newidiadau llai yn cael eu gwneud i'r trac sain gwreiddiol i'w wneud yn hygyrch i bobl sy'n colli eu golwg a phobl ddall (er enghraifft darllen testun ar y sgrin mewn sioeau cwis). Gall ystyried hygyrchedd fel rhan o'r broses gomisiynu a chynhyrchu helpu i gyflawni hyn.

3.7 Dylai darparwyr geisio lleihau'r rhwystrau rhag cael gafael ar gynnwys mewn rhaglenni newyddion, megis testun ar y sgrin neu segmentau iaith dramor sy'n cael eu cyfieithu drwy isdeitlau. Gallai'r rhain fod yn hygyrch i gyflwynwyr sy'n darllen testun ar y sgrin neu drwy'r defnydd o drosleisio.

## Sicrhau ansawdd:

### Dylai disgrifiadau sain anelu at gynnig profiad cyfatebol o'r rhaglen, o ran hysbysu a diddanu cynulleidfaoedd

3.8 Dylai disgrifiadau sain fod yn yr iaith a ddisgwylir gan gynulleidfa darged y rhaglen yn y DU. Dylai disgrifiadau sain ddisgrifio'r wybodaeth weledol bwysig sy'n berthnasol i'r plot, megis cymeriadau (gan gynnwys iaith y corff ac ystumiau), lleoliad, lliwiau, amser, gwybodaeth ar y sgrin, synau nad oes modd eu hadnabod yn hawdd, newid golygfeydd a/neu oedi heb esboniad yn y ddeialog. Gall hefyd fod yn briodol rhoi barn ansoddol i gyfleu ystyr neu hiwmor (er enghraifft, disgrifio crys fel 'hyll' os yw hyn yn allweddol i jôc). Fodd bynnag, dylai disgrifiadau sain osgoi disgrifio gwybodaeth sy'n glir o'r ddeialog a'r effeithiau sain, fel drysau'n cau'n glep neu wn yn cael ei danio.

3.9 Dylid disgrifio nodweddion gweledol allweddol cymeriad cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Fodd bynnag, dylai disgrifiadau sain osgoi datgelu manylion ymlaen llaw (er enghraifft, enwau cymeriadau) pan fydd y plot yn mynnu eu bod yn cael eu dal yn ôl.

3.10 Heblaw gwybodaeth sy'n berthnasol yn uniongyrchol i'r plot, dylai disgrifiadau sain fod yn sensitif i nodweddion gweledol eraill gan gynnwys nodweddion amrywiaeth a allai fod o ddiddordeb ac yn berthnasol i gynulleidfaoedd. Gall disgrifio ffactorau fel ethnigrwydd neu anabledd helpu i gyfleu lefelau amrywiaeth ar y sgrin i gynulleidfaoedd a darparu cynrychiolaeth i bobl sy'n colli eu golwg a phobl ddall o amrywiaeth o gefndiroedd. Efallai y bydd darparwyr yn dymuno ystyried beth yw'r ffordd orau o ragdybio nodweddion cyffredin, er enghraifft drwy osgoi disgrifio lliw croen cymeriadau o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yn unig).

3.11 Ni ddylai disgrifiadau sain sensro'n ddiangen wybodaeth a allai gael ei hystyried yn sensitif, megis gweithredoedd rhywiol a thrais (gan gofio bod angen i'r rhaglen yn ei chyfanrwydd gydymffurfio â rheolau golygyddol Ofcom).

3.12 Dylai disgrifiadau fod yn glir, yn gywir ac yn hawdd eu deall, gan ofalu nad yw lefel y manylder yn gorlwytho cynulleidfaoedd nac yn tynnu sylw oddi ar fwynhau'r rhaglen. Yn gyffredinol, dylai disgrifiadau sain roi blaenoriaeth i gadw'r brif ddeialog ac yna effeithiau sain sy'n gysylltiedig â'r plot, yna effeithiau sain eraill, cerddoriaeth gefndirol a siarad achlysurol (fel sgwrsio torfol). Rydyn ni'n nodi bod rhai achosion lle gallai fod angen gorgyffwrdd rhwng y ddeialog: er enghraifft, i ddarllen isdeitlau/testun ar y sgrin, neu os oes angen cyfleu gwybodaeth berthnasol a allai fod o fwy o ddiddordeb i gynulleidfaoedd na'r ddeialog. Mae hyn yn golygu y dylai disgrifiwyr wneud penderfyniadau ynglŷn â pha wybodaeth sydd bwysicaf i'w chynnwys.

## Gall cyflwyniadau sain neu ddisgrifiadau sain estynedig fod yn ddefnyddiol ar gyfer darparu manylion ychwanegol

3.13 Gan mai ychydig o le sydd ar gael yn y prif drac sain, efallai y bydd darparwyr yn dymuno ystyried cynnig cyflwyniadau sain neu ddisgrifiadau sain estynedig ar eu gwasanaethau ar-lein i ddarparu manylion ychwanegol, fel gwybodaeth am nodweddion amrywiaeth.

3.14 Cyflwyniadau sain yw trac disgrifiadau sain ychwanegol y gall cynulleidfaoedd wrando arno ar-lein cyn y brif raglen. Gellir eu defnyddio i osod y cyd-destun a disgrifio gwybodaeth gyd-destunol berthnasol na ellir ei chael drwy wrando ar y rhaglen, er enghraifft drwy ddisgrifio'n fanylach sut mae cymeriadau'n edrych a/neu'r lleoliad lle bydd pethau'n digwydd. Gall cyflwyniadau sain fod yn fwyaf defnyddiol ar gyfer genres penodol o raglenni sydd â chymeriadau rheolaidd fel cyfresi teledu, dramâu, ac operâu sebon.

3.15 Mae disgrifiadau sain estynedig yn cynnwys oedi'r fideo a'r prif drac sain i gynnwys disgrifiad ychwanegol cyn i'r rhaglen ailddechrau. Gall disgrifiadau sain estynedig fod yn ddefnyddiol er mwyn gallu darparu manylion ychwanegol ar yr adegau mwyaf perthnasol. Efallai y dylai darparwyr ystyried cynnig disgrifiadau sain estynedig fel nodwedd ddewisol y gellir ei rhoi ymlaen a'i diffodd er mwyn galluogi dewis.

3.16 Rydyn ni'n annog darparwyr i sicrhau bod cynulleidfaoedd yn gallu gweld yn glir a oes cyflwyniadau sain neu ddisgrifiadau sain estynedig ar gael.

## Dylai ddisgrifiadau sain fod yn hawdd eu clywed a'u deall

3.17 Dylai darparwyr greu cydbwysedd priodol mewn lefelau sain i sicrhau bod modd clywed y disgrifiadau sain a'r prif drac sain. Pan fo'n bosibl, efallai y bydd darparwyr hefyd yn dymuno ystyried opsiynau personoli er mwyn galluogi cynulleidfaoedd i addasu lefelau sain y disgrifiadau sain a'r prif drac sain i gyd-fynd â'u dewisiadau nhw.

3.18 Dylai darparwyr sicrhau hefyd fod modd chwarae'r disgrifiadau sain drwy'r un systemau sain â'r prif drac sain, er enghraifft drwy unrhyw systemau sain amgylchynol.

## Dylai arddull y disgrifiadau sain fod yn briodol ar gyfer y genre/math o raglenni

3.19 Dylai darparwyr ystyried genre/math o raglen wrth ddatblygu iaith a thôn disgrifiadau sain, a dewis manylion i'w disgrifio (er enghraifft, gall disgrifio dillad fod yn arbennig o bwysig mewn sioeau sy'n ymwneud â ffasiwn).

3.20 Efallai y bydd darparwyr yn dymuno archwilio gwahanol ddulliau o ymdrin ag arddulliau disgrifiadau sain, gan ystyried dewisiadau cynulleidfaoedd ac adborth ynghyd â'r math o raglen. Gallai hyn gynnwys mabwysiadu arddull fwy niwtral neu anymwthiol, neu arddull fwy anffurfiol neu oddrychol, er enghraifft drwy ymgorffori hiwmor sy'n adlewyrchu natur y cynnwys. Mae dewisiadau cynulleidfaoedd o ran arddulliau disgrifiadau sain yn amrywio, felly efallai y bydd darparwyr yn dymuno cynnig gwahanol arddulliau ar gyfer gwahanol raglenni.

3.21 Dylai darparwyr sicrhau bod iaith ac arddull disgrifiadau sain ar gyfer rhaglenni plant yn ddiddorol ac yn briodol i'r oedran.

## Dylai'r disgrifwyr fod yn briodol ar gyfer y genre

3.22 Dylid dewis lleisiau disgrifiwyr i weddu i'r genre, natur y rhaglenni a'r gynulleidfa darged.

3.23 Cyn belled ag y bo modd, dylai darparwyr gadw'r un arwyddwr/arwyddwyr i gyfleu'r disgrifiadau sain ymhob pennod o gyfres. Mae hyn yn allweddol i greu ymdeimlad o ddilyniant i gynulleidfaoedd ac mae'n arbennig o bwysig ar gyfer cyfres lle mae cynulleidfaoedd yn debygol o wylio mwy nag un bennod yn syth ar ôl ei gilydd.

# 4. Iaith arwyddion

## Beth yw iaith arwyddion?

4.1 Ieithoedd arwyddion yw ieithoedd lle mae pobl yn defnyddio ystumiau a symudiadau dwylo, iaith y corff a mynegiant yr wyneb i gyfathrebu.

4.2 Iaith Arwyddion Prydain (BSL) yw'r iaith arwyddion sy'n cael ei defnyddio'n fwyaf cyffredin yn y Deyrnas Unedig ac mae'n iaith unigryw (a gydnabyddir yn unigryw gan y Llywodraeth) sydd â chystrawen a geirfa wahanol i'r Saesneg.[33]. Mae gan BSL lawer o dafodieithoedd rhanbarthol ac mae gwahanol fathau o iaith arwyddion mewn gwledydd eraill (gan gynnwys Iaith Arwyddion Iwerddon, sy'n cael ei defnyddio gan rai yng Ngogledd Iwerddon).

4.3 Mae gwahanol fathau o raglenni'n cael eu harwyddo:

Ystyr dehongli drwy iaith arwyddion yw pan fydd rhaglen mewn iaith wahanol (er enghraifft, Saesneg) yn cael ei chyfieithu i iaith arwyddion gan arwyddwr, fel arfer yng nghornel y sgrin. Ystyr cyflwyno ag arwyddion yw pan fydd pawb sy'n cymryd rhan mewn rhaglen (er enghraifft, cyflwynwyr, actorion) yn defnyddio iaith arwyddion.

## Cynulleidfaoedd:

4.4 Mae rhai pobl sy'n fyddar neu sy'n colli eu clyw (fel arfer y rheini sy'n hollol fyddar, yn aml o'u genedigaeth neu'n gynnar mewn bywyd) yn defnyddio BSL fel eu prif ddull o gyfathrebu.

4.5 Er bod rhai pobl f/Fyddar yn ddwyieithog yn Saesneg a BSL, ni ddylid ystyried isdeitlau yn lle iaith arwyddion: i lawer o bobl Fyddar, BSL yw eu hiaith gyntaf ac mae gan bobl Fyddar lefelau amrywiol o rugldеr yn Saesneg. Efallai na fydd plant b/Byddar ifanc, yn enwedig, yn llythrennog yn Saesneg eto ac efallai y byddant yn dibynnu ar iaith arwyddion i ddeall a mwynhau rhaglenni plant.

4.6 Mae iaith arwyddion hefyd yn cael ei defnyddio'n ehangach, gan gynnwys gan aelodau teulu pobl f/Fyddar a phobl sy'n defnyddio BSL am resymau proffesiynol. Gall rhaglenni wedi'u harwyddo hefyd helpu pobl sy'n dysgu'r iaith.

## Dewis ac amserlennu rhaglenni

4.7 Gall cynulleidfaoedd fwynhau rhaglenni sydd â dehongliad iaith arwyddion a rhaglenni wedi'u cyflwyno mewn iaith arwyddion:

- Mae dehongli drwy iaith arwyddion yn galluogi pobl i fwynhau rhaglenni poblogaidd a wneir mewn ieithoedd eraill gan gynnwys Saesneg. Gall fod yn arbennig o bwysig ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes neu raglenni mewn cyfresi dal-i-fyny sydd wedi cael eu harwyddo ar deledu sy'n cael ei ddarlledu.

[33] Gweler Deddf Iaith Arwyddion Prydain 2022.

- Mae rhaglenni sy'n cael eu cyflwyno drwy iaith arwyddion yn galluogi pobl Fyddar i wylio rhaglenni yn eu hiaith gyntaf heb eu cyfieithu, ac i weld eu diwylliant a'u cymuned nhw yn cael eu hadlewyrchu ar y sgrin. Mae plant ifanc byddar sy'n dysgu iaith arwyddion yn ei chael hi'n haws deall a mwynhau rhaglenni wedi'u cyflwyno mewn iaith arwyddion na'r rheini sy'n cael eu cyfieithu i iaith arwyddion.

4.8 Dylai darparwyr fideo ar-alw ymgynghori â'u cynulleidfaoedd wrth benderfynu pa raglenni fydd yn cael dehongliad iaith arwyddion, eu cyflwyno drwy iaith arwyddion neu gymysgedd o'r ddau.

4.9 Rydyn ni hefyd yn annog darparwyr i integreiddio cynrychiolaeth o bobl sy'n defnyddio BSL mewn rhaglenni a wneir yn bennaf mewn ieithoedd eraill gan gynnwys Saesneg.

4.10 Dylai darlledwyr amserlennu rhaglenni perthnasol pan fydd defnyddwyr iaith arwyddion yn debygol o fod yn gwylio. Cyn belled ag y bo modd, dylent osgoi amserlennu rhaglenni yn oriau mân y bore.

## Sicrhau ansawdd

### BSL ddylai fod yr iaith ddiofyn ar gyfer rhaglenni sy'n cael eu harwyddo.

4.11 Dylai darlledwyr ddefnyddio BSL fel mater o drefn i fodloni'r gofynion o ran iaith arwyddion[34]. Fodd bynnag, efallai y bydd darlledwyr yn ystyried defnyddio Iaith Arwyddion Prydain neu Iaith Arwyddion Iwerddon ar gyfer cynulleidfaoedd yng Ngogledd Iwerddon.

### Dylai dehongliad iaith arwyddion gael ei gysoni, cyn belled ag y bo modd, â'r lleferydd.

4.12 Dylai dehongliad iaith arwyddion gael ei gysoni â'r iaith lafar i'r graddau sy'n bosibl wrth gyfieithu rhwng ieithoedd.

4.13 Dylai rhaglenni sy'n cael eu harwyddo, p'un a ydynt yn cael eu cyflwyno neu eu dehongli mewn iaith arwyddion, gael isdeitlau, fel ei bod yn haws i bobl sy'n defnyddio iaith arwyddion ac isdeitlau eu deall a'u mwynhau.

### Dylai'r dehongliad iaith arwyddion adlewyrchu geiriau a goslef y siaradwr yn gywir.

4.14 Dylai'r dehongliad iaith arwyddion fod yn gywir ac yn hawdd ei ddeall. Gall cywirdeb fod yn arbennig o bwysig pan fydd gwybodaeth bwysig yn cael ei chyfleu (er enghraifft mewn rhaglenni newyddion) hyd yn oed os yw hyn yn golygu mwy o oedi. Dylai dehonglwyr adlewyrchu'r cynnwys yn emosiynol drwy bortreadu goslef y siaradwr. Dylai dehonglwyr hefyd nodi gwybodaeth heblaw siarad, megis nodi pwy sy'n siarad ac effeithiau sain allweddol. Dylai dehonglwyr ystyried amrywiadau rhanbarthol mewn BSL.

4.15 Dylai dehonglwyr iaith arwyddion feddu ar gymwysterau priodol, i ddefnyddio iaith arwyddion ar lefel cymhwysedd brodorol ac i gyfathrebu'n effeithiol drwy'r teledu.

---

[34] Gweler y Cod Gwasanaethau Mynediad ar gyfer Teledu i gael rhagor o wybodaeth am y targedau arwyddo.

4.16 Cyn belled ag y bo modd, dylai darparwyr gadw’r un arwyddwr/arwyddwyr ar bob pennod mewn cyfres. Mae hyn yn allweddol i greu ymdeimlad o ddilyniant i gynulleidfaoedd pan fyddant yn debygol o wylio mwy nag un bennod yn syth ar ôl ei gilydd.

## Dylai arwyddwyr fod yn amlwg.

4.17 Dylai dehonglwyr iaith arwyddion fod yn amlwg yn erbyn y sgrin gefndirol, er enghraifft drwy wisgo dillad plaen (heb batrwm) o liw cyferbyniol, a/neu osod y dehonglydd iaith arwyddion y tu allan i ffrâm luniau’r rhaglen.

4.18 Dylai dehonglwyr fod yn ddigon mawr fel bod ystumiau eu hwynebau, ystumiau eu dwylo a rhan uchaf eu corff yn hawdd eu gweld a’u deall, heb guddio gwybodaeth allweddol ar y sgrin. Yn gyffredinol, mae dehonglwyr iaith arwyddion yn ymddangos ar ochr dde’r sgrin a dylent gymryd o leiaf 1/6 o arwynebedd y sgrin deledu. Wrth bennu maint a safle’r arwyddwr, dylai darparwyr ystyried hefyd ar ba lwyfannau gwahanol y bydd y cynnwys yn cael ei chwarae a beth yw genre’r rhaglen (gan gynnwys faint o weithgaredd sydd ar y sgrin a pha fath o weithgaredd ydyw). Rydyn ni'n annog darparwyr i ystyried offer personoli i newid maint yr dehonglwr lle bo hynny’n bosibl.

4.19 Dylai cyflwynwyr, actorion neu westeion iaith arwyddion fod yn amlwg yn y llun wrth gyfathrebu mewn iaith arwyddion mewn rhaglenni. Mae hyn yn cynnwys pan fydd defnyddwyr iaith arwyddion yn ymddangos mewn rhaglenni a wneir yn bennaf mewn ieithoedd eraill, gan gynnwys Saesneg.